Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes

Cais am Brydau Ysgol am Ddim 2020/2021

I'w gwblhau gan rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol y plentyn/plant y cyflwynir cais am brydau ysgol am ddim ar ei gyfer/eu cyfer.

Enw'r Ymgeisydd: _____ **Perthynas i'r disgybl(ion):** _____

Cyfeiriad llawn: _____

_____ **Côd post:** _____

Rhif Ffôn: _____ **Dyddiad Geni Rhiant/Gwarcheidwad:** _____

Rhif Yswiriant Gwladol: _____

Nodwch a ydych yn derbyn un o'r budd-daliadau canlynol	**YDW/NAC YDW**
Cymhorthdal Incwm/ Lwfans Cefnogi Cyflogaeth (cysylltiedig ag incwm)	
Lwfans Ceiswyr Gwaith Seiliedig ar Incwm	
Credyd Treth Plant, ar yr amod nad oes ganddynt hawl i Gredyd Treth Gwaith ac nad yw eu hincwm blynyddol yn fwy na £16,190 (Cyllid a Thollau EM sy'n gyfrifol am asesu lefel yr incwm blynyddol)	
Elfen warantedig y Credyd Pensiwn Gwladol	
Cefnogaeth o dan Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1999	
Credyd Treth Gwaith 'ar-lein' - y taliad y gall rhywun ei gael am bedair wythnos arall ar ôl i'w cymhwysedd i gael y Credyd Treth Gwaith ddod i ben	
Credyd Cynhwysol – Os ydych yn cyflwyno cais ar 1 Ebrill 2019 neu ar ôl y dyddiad hwn, bydd yn rhaid i'ch incwm fod yn llai na £7,400 y flwyddyn (ar ôl treth a heb gynnwys unrhyw fudd-daliadau rydych yn eu derbyn).	

Nodwch isod fanylion pob plentyn dibynnol sy'n mynd i'r ysgol yn amser llawn

Enw llawn y plentyn	**Dyddiad Geni**	**Enw'r Ysgol** (y bydd y plentyn yn mynd iddi ym mis Medi 2020)	**Blwyddyn Ysgol** (ym mis Medi 2020)	**A yw pob plentyn yn byw gyda chi? YDY/ NAC YDY**

DATGANIAD

Rwy'n cytuno i chi ddefnyddio'r wybodaeth rwyf wedi ei rhoi i brosesu fy hawl am brydau ysgol am ddim ac y byddwch yn cysylltu ag asiantaethau eraill (Canolfan Byd Gwaith, Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid a Thollau EM) fel a ganiateir yn ôl y gyfraith, i wirio fy hawliad cychwynnol a pharhaus.

Rwy'n datgan bod y wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon yn ddatganiad cywir o'm hamgylchiadau a byddaf yn hysbysu'r awdurdod ar unwaith os bydd fy amgylchiadau'n newid. Rwy'n deall bod Adran Addysg Castell-nedd Port Talbot yn cadw'r hawl i weithredu'n briodol os canfyddir y gwnaed datganiad anwir ynghylch incwm.
Rwy'n deall y gall canlyniadau unrhyw wiriad cymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim gael eu defnyddio hefyd i asesu fy hawl i Grant Addysg Awdurdod Lleol Llywodraeth Cymru Cynllun Mynediad PDG.

Llofnod yr ymgeisydd: _____ **Dyddiad:** _____

AR DDEFNYDD Y SWYDDFA YN UNIG		
Safle wedi'I Ddilysu	**Mewnbwn Gan**	**Dyddiad**

A fyddech gystal llenwi a'i dychwelyd at:

Tîm Cefnogi Ysgolion a Theuluoedd, Prydau ysgol am ddim, Canolfan Ddinesig, Port Talbot. SA13 1PJ.

Hysbysiad Preifatrwydd

1. Drwy roi eich gwybodaeth bersonol i ni rydych yn cydnabod trwy hyn mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yw'r Rheolwr Data ar gyfer yr holl wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu ar y ffurflen hon (at ddiben Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016 (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA)).
2. Bydd y data personol rydym yn ei gasglu gennych trwy'r ffurflen hon yn cael ei ddefnyddio gan y cyngor (yn unol â'i rwymedigaeth i gyflawni ei swyddogaethau statudol a busnes amrywiol) at y dibenion canlynol:
   Prosesu'ch cais er mwyn awdurdodi darpariaeth prydau ysgol am ddim.
3. Fel rheolwr data, mae'n ofynnol i'r cyngor, o dan y GDPR, eich hysbysu o ba rai o "Amodau Prosesu Data" Erthygl 6 y GDPR y mae'n dibynnu arnynt i brosesu'ch data personol yn gyfreithlon. Yn hyn o beth, sylwer mewn perthynas â'r data a ddarperir gennych chi ar y ffurflen hon ein bod yn dibynnu ar y ddau amod canlynol o Erthygl 6:
   i. "Mae'n angenrheidiol prosesu'r data er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolwr yn destun iddo". (Erthygl 6(c) y GDPR).
   ii. "Mae'r prosesu data yn angenrheidiol ar gyfer perfformio tasg a wneir er budd y cyhoedd neu i arfer awdurdod swyddogol a ymddiriedir i'r rheolwr." (Erthygl 6(e) GDPR).
4. Mae'n bosib y byddwn yn rhannu eich data personol yn ddiogel â'r trydydd partïon canlynol (h.y. pobl/cyrff/endidau y tu allan i'r cyngor) yn unol â threfniadau rhannu data sydd gennym gyda'r trydydd partïon hynny:-
   Ysgolion, yr Is-adran Refeniw, Llywodraeth Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau ac awdurdodau lleol eraill.
5. Bydd yr wybodaeth bersonol a gesglir gennych ar y ffurflen hon yn cael ei chadw gan y cyngor am gyfnod o 7 mlynedd.
6. Sylwer bod gofyn i ni gasglu data personol penodol dan ofynion statudol ac mewn achosion o'r fath gall eich methiant i roi'r wybodaeth honno i ni arwain at anallu'r cyngor i ddarparu gwasanaeth i chi a/neu gallech wynebu achos cyfreithiol.
7. Byddem yn eich hysbysu bod gennych yr hawl, o dan Ethygl 21 y GDPR, i wrthwynebu i'r awdurdod ar unrhyw adeg am y ffaith ein bod yn prosesu'ch data personol at ddibenion cynnal tasg gyhoeddus neu arfer ein hawdurdod swyddogol.
8. Ni fydd y cyngor yn trosglwyddo unrhyw elfen o'ch data personol y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Bydd holl waith prosesu eich data personol gennym yn cael ei wneud yn y Deyrnas Unedig neu yng ngwledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd.
9. Ni fydd y cyngor yn defnyddio'ch data personol at ddibenion gwneud penderfyniadau awtomataidd.
10. Sylwer, o dan y GDPR, y rhoddir yr hawliau canlynol i unigolion mewn perthynas â'u data personol:
    i. Yr hawl i gael mynediad at eu data personol a gedwir gan reolwr data.
    ii. Yr hawl i gywiro data gwallus gan reolwr data.
    iii. Yr hawl i ddileu eu data (mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig).
    iv. Yr hawl i gyfyngu ar brosesu eu data gan reolwr data (mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig).
    v. Yr hawl i wrthwynebu i'w data gael ei ddefnyddio ar gyfer marchnata uniongyrchol.
    vi. Yr hawl i drosglwyddo data (h.y. trosglwyddo data'n electronig i reolwr data arall).
    Gellir cael mwy o wybodaeth am yr holl hawliau uchod ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: www.ico.org.uk.
11. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am ein defnydd o'ch data personol, rydych yn dymuno cael mynediad at yr un data neu rydych am wneud cwyn am brosesu'ch data personol, ysgrifennwch at Swyddog Diogelu Data'r cyngor yn y cyfeiriad canlynol: Cyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Canolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ.
12. Sylwer os ydych yn cyflwyno cais neu gŵyn i Swyddog Diogelu Data'r cyngor (gweler rhif 9 uchod) ac rydych yn anfodlon ar ymateb y cyngor, mae hawl gennych i gwyno'n uniongyrchol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd a mwy o wybodaeth am eich hawliau ar wefan y comisiynydd yn www.ico.org.uk.